CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed GORFFENNAF 2023.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng D T Roberts (Cadeirydd) Cyng W R Parry (Is-Gadeirydd) Cyng Ms N Dafydd, J Evans, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, Mrs L Roberts, R R Roberts.

YMDDIHEURIADAU: Cyng G Jones.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 20ed MEHEFIN 2023 YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng N Dafydd. Ar ol gwneud un newidiad. Cynllun Haulfryn, Bodffordd lle dywedwyd fod hollol wrthwynebiad, dylai fod yn fwyafrif.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Ymgynghoriad Haulfryn Bodffordd. Cyfarfod Mis Ebrill 2023. Mae y mater gyda Mr Eastwood, Chauntry House Bodffordd wedi ei dod i benderfyniad. Mae diwedd ar y mater nawr.

ELUSEN WILLIAM BOLD.

Ni chafwyd fwy o wybodaeth gan yr Ysgrifennydd.
Daeth Cyng J E Lewis Ymddiriedolwr a Cyfrifon 31ain Mawrth 2023 i`r cyfarfod wedi ei harwyddo ganddo. Nid oedd dim sylw gan y Cyngor.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Ffliw Adar. Mae archosion yn bosib ar yr Ynys. Mae gwybodaeth o`r adroddiadau wedi cod ei pen fod adran marw mewn nythedydd. Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth.

4. Swyddog Polisi Rhian W Jones.

   Cynllun y Cyngor newydd i greu Cymunedau sy`n iach, yn llewyrchys ac yn ffynnu 2023 - 28. Yr Iaith Gymraeg. Gofal Gymdeithiasol. Addysg. Tai. Economi. Newid Hinsawdd Sero Net 2030.

https://www.ynysmon.llyw.cymru/cynllun-yn-y-cyngor-2023-2028
Y Cyngor yn gefnogol a derbyniol.

5. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.

   Llewod Mon yn barod i ruo yn ei cit newydd.
   Tim peldroed cymysg ar gyfer oedolion ag anableddau. Cit swyddogol cyntaf yn rhodd gan Lewis Bros Roofing & Plastering, Llangefni.
   Mawr obeithi`r y bydd defnydd yn cael ei wneud, or cyfle i ymuno.

6. Busnes y Cyngor. Siwan Jones.

   Gorchymyn y Cyngor Sir. Gwahardd Traffig trwodd dros dro. Lon Llechcynfarwy i Trefor.
   Openreach adnewyddu polyn diffygiol a ceblau 28ain Gorffennaf 2023. Derbyn y wybodaeth.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Dylan Rees. Cynghorydd Sirol.
   Tramwy Trwm (HGV) mynediad. Ms Sue Edgar, Yr Hen Efail, Bodffordd.
   Cysylltiad wedi ei wneud gan y Cynghorydd Sir gyda Swyddogion Adran Priffyrdd y Cyngor Sir. Mae hyn yn hen broblam mae yr unig ffordd i`r A5 ydyw trwy Bodffordd. Nid ydyw yn bosib mynd trwy Trefor mae yn anodd troi yn y sgwar a`r lon yn rhy gul. Mae y Cyngor Cymdeithas wedi trafod hyn flynyddoedd yn ol ac mae yn ddim mynd (no go)
   Trwy gynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng J E Lewis pasiwyd i`r Clerc gysylltu a Swyddog o`r Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i gael cyfarfod yn Pentref Bodffordd.

8. Cyfeillion Lon Las Mon - Rali 2.
   Reilffordd Segur - neu llwybr i bawb.
   Cefnogaeth gan y Cyngor i ail gychwyn y Rheilffordd Segur (ond dim cledrau i`w codi) Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng Mrs B Owen.

9. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn. Cyng J E Lewis yn cael golwg arno.

RHODDION.

10. Glorian. Tro cyntaf erioed iddynt rhoi cais am gyfraniad. Trwy gynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng J Evans pasiwyd i gyfrannu. Penderfynwyd rhoi £100.00 iddynt cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng J E Lewis. Pawb yn ynfrydol.

PLWYFOL.

11. Model Protocol Cydraniad Lleol i Gynghorau Cymuned a Thref. Cwynion.
    Derbyn a`i fabwysiadu Cynnig Cyng Miss B Owen, eilio Cyng J E Lewis. Unfrydol.

12. Y Cyngor yn siomedig iawn nad i`w y Cynghorydd Sirol Paul Ellis yn mynegu cyfarfodydd o`r Cyngor er ei fod yn cael y Rhaglen a`r Cofnodion.

13. Cyng J E Lewis yn dweud fod Graffiti ar y Cysgodfan Bws wrth y Capel ym Modffordd. Cael golwg arno cyn iddo fynd yn waeth.

14. Cael adroddiad byr gan Cyng Ms Non Dafydd (hefyd Cynghorydd Sirol) ar ddiwedd y cyfarfod os bydd materion yn ymwneud a Cyngor Cymdeithas Bodffordd.

MATERION ARIANNOL.

15. Cyfrif Rhedegol £13,970.79.

16. Mynwent Gymunedol £7,390.00.

TALIADAU:

17. Clerc £900.00 (Dau fis Gorffennaf / Awst) Awdit Wales 2021/22. £259.00. Glorian (Rhodd) £100.00.

Derbyn y taliadau a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng J Evans.

D Owen (Clerc)